Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Cyfres Cipolwg ar y Gweithlu

## Gwerthfawrogi gwaith gofal cymdeithasol

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2024

Dyma grynodeb o ganfyddiadau arolwg y gweithlu 2023 a ffynonellau eraill sy'n ymwneud â gwerthfawrogi gwaith gofal cymdeithasol. Mae'n cyfeirio at deimladau'r gweithlu o ran cael eu gwerthfawrogi gan gydweithwyr yn y sector, sectorau cysylltiedig fel iechyd a'r heddlu, a'r cyhoedd. Rydyn ni hefyd wedi crybwyll c anfyddiadau am werthfawrogi'r gweithlu fel agwedd o broffesiynoli cynyddol a gwybodaeth am sut mae gweithwyr gofal yn teimlo am gyfleoedd hyfforddiant.

Fersiwn byr a bachog yw hwn sy'n amlygu'r prif ffeithiau ar eich cyfer chi.*

Am fwy o fanylder a chyd-destun ewch i'r fersiwn llawn, sydd wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ymchwil, data ac arloesi:
**grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru**

*Oni bai ein bod yn nodi'n wahanol, mae'r holl ffigurau a nodir yn cyfeirio at bobl gofrestredig a gymerodd ran yn ein harolwg gweithlu.

# Sut mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

Dywedodd 71% o bobl cofrestredig eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu gwerthfawrogi.

Roedd 61% yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu gwerthfawrogi.

Teimlodd 76% bod y bobl a'r teuluoedd yr oedden nhw'n eu helpu'n uniongyrchol yn eu gwerthfawrogi.

62% oedd y canran o reolwyr gofal cymdeithasol oedd yn teimlo bod eu cymheiriaid mewn sectorau eraill fel iechyd neu'r heddlu yn eu gwerthfawrogi.

Roedd 47% o weithwyr gofal a 44% o weithwyr cymdeithasol yn cytuno eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan gydweithwyr mewn asiantaethau partner.

Dywedodd 48% o weithwyr gofal a rheolwyr gofal cymdeithasol eu bod yn teimlo bod y cyhoedd yn eu gwerthfawrogi.

20% oedd y canran o weithwyr cymdeithasol oedd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd.

# Beth mae'r cyhoedd yn meddwl am ofal cymdeithasol **

Dywedodd 72% o aelodau'r cyhoedd ymatebodd i'n harolwg bod ganddyn nhw hyder yn y bobl a oedd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Credodd 77% o'r ymatebwyr y dylai staff gofal cymdeithasol gael yr un cyflog â staff y GIG sy'n gwneud gwaith tebyg.

** ffynhonnell ddata: Arolwg o farn y cyhoedd (2023).

# Pam ei bod yn bwysig gwerthfawrogi gwaith gofal cymdeithasol

Dywedodd **57%** eu bod yn fodlon gyda'u swydd bresennol.

Roedd **26%** yn disgwyl gadael y sector gofal cymdeithasol yn y 12 mis nesaf.

Roedd **44%** yn disgwyl gadael yn y pum mlynedd nesaf.

# Proffesiynoli a hyfforddi

Dywedodd **80%** eu bod yn awyddus i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Roedd **75%** yn cytuno bod cyfleodd hyfforddi ar gael iddyn nhw.

Yn ôl **65%** nid oedd rhwystrau rhag derbyn hyfforddiant yn eu gweithle.

Adroddodd **25%** bod dim byd yn eu rhwystro rhag derbyn hyfforddiant. O'r rhain, roedd **42%** yn dweud bod cyfyngiadau amser yn eu rhwystro rhag cael hyfforddiant, a dywedodd **48%** mai prinder cyfleoedd hyfforddiant oedd y rhwystr mwyaf.

Teimlodd **38%** o reolwyr bod gofynion o ran cymwysterau a chofrestru yn ei gwneud hi'n anodd i recriwtio a chadw staff.

# Eisiau gwybod mwy?

Dewch o hyd i fersiwn llawn **Gwerthfawrogi  gwaith gofal cymdeithasol** ar ein gwefan:
**grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru**

## Ffynonellau:


- https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Adroddiad-arolwg-y-gweithlu_2023-10-05-070100_bncb.pdf
- Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolwg o Farn y Cyhoedd (2023). Heb ei gyhoeddi.